

CYNGOR GWYNEDD GWYNEDD COUNCIL

Cofnodion drafft y 14^{eg} cyfarfod Grŵp Cyswllt Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Pen Llŷn a'r Sarnau, a gynhaliwyd ar 17^{eg} Hydref 2007 (yn dechrau am 7pm) ym Mhlas Tan y Bwlch, Maentwrog.

Yn bresennol:

Bill Bracewell	Hamdden - Partneriaeth Aberdyfi
Mike Bowyer	Arall - Archaeoleg
Lucy Kay	Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC)
Rod Gritten	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE)
Rhys Jones	Cyngor Gwynedd (CG)
Rowland Sharp	Arall – Diddordeb Personol
Alison Hargrave	Swyddog ACA
Cyng. Caerwyn Roberts	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (Cadeirydd)
Cyng. Ray Quant	Cynghorydd Lleol
Bill Miller-Jones	Arall – Plymiwr a pherchennog cwch
Mike Parry	Twristiaeth – Cymdeithas Pysgotwyr Llŷn
Vitoria Hickin	Pwyllgor Pysgodfeydd Môr y Gogledd Orllewin a Gogledd Cymru (NW&NWSFC)
Ruth Sharratt	Y Gymdeithas Hwyllo Frenhinol
Gruff Jones	Arall – Cadw Cymru'n Daclus
Alan Gaydon	Cyngor Cymuned

Cyflwyniad

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Caerwyn Roberts. Gan fod nifer o wynebau newydd, fe wnaeth bawb gyflwyno eu hunain.

Eglurodd Caerwyn Roberts y byddai'n gorfod mynd i gyfarfod arall am 8pm, ac nad oedd modd iddo newid y trefniant hwnnw, felly byddai Rod Gritten yn cadeirio'r cyfarfod yn ystod yr awr olaf. Eglurodd hefyd y byddai Rod Gritten yn gadael ei swydd ym Mai 2008, ac mai hwnnw fyddai ei gyfarfod olaf. Ar ran y grŵp, dymunodd yn dda i Rod a diolchodd iddo am yr holl waith caled oedd wedi ei wneud ar gyfer ACA Pen Llŷn a'r Sarnau.

1. Ymddiheuriadau:

Andy Jeffery	Diwydiant
Liz Allen	Cyngor Sir Ceredigion
Liz Jones	Asiantaeth yr Amgylchedd
Alf Bowen	Twristiaeth – Partneriaeth Aberdyfi
Mike Thrussell	Pysgota Hamdden
Jilly Whipp	Arall
Bob Lowe	Hamdden

2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf

- 2.1 Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

3. Materion yn codi

- 3.1 Eitem 3.1 (Alison i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp am y prosiect codi ymwybyddiaeth Interreg IIIA): Roedd yr eitem hon ar y rhaglen.

GWEITHREDU: Alison i barhau i adael i'r grŵp wybod am y prosiect codi ymwybyddiaeth Interreg IIIA

4 Y wybodaeth ddiweddaraf oddi wrth y Swyddog ACA

4a) Y wybodaeth ddiweddaraf oddi wrth y Grŵp Awdurdodau Perthnasol – cadeirydd newydd

Eglurodd Caerwyn Roberts mai David Archer o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri fyddai'n arfer cadeirio'r Grŵp Awdurdodau Perthnasol. Roedd ef wedi ymddeol erbyn hynny, ac Emyr Williams, Cyfarwyddwr Rheoli Tir yr Awdurdod hwnnw, fyddai'n gwneud y gwaith cadeirio, a Rod Gritten (neu'r Uwch Ecolegydd newydd) yn parhau fel is-gadeirydd.

4b/c) Codi Ymwybyddiaeth a logo ACA Pen Llŷn a'r Sarnau

Rhoddodd Alison grynoded o'r cynlluniau codi ymwybyddiaeth oedd wedi mynd ymlaen yn ystod 2007.

- Rhoddwyd nifer o gyflwyniadau, i tua 11 o grwpiau a dros 40 o ysgolion.
- Cafwyd cynhyrchiad theatr o dan y prosiect Interreg, a bu'n hynod o lwyddiannus.
- Eleni am y tro cyntaf fe aethpwyd i ymweld ag ysgolion arbennig, yn cynnwys taith i lawr i draeth morfa bychan
- Aeth yr arddangosfa deithiol i dros ddeg o sioeau / digwyddiadau
- Trefnwyd nifer o ddigwyddiadau, yn cynnwys taith dywys, saffari pyllau creigiau a chystadleuaeth cerfluniau tywod.
- Ysgrifennwyd 4 erthygl ar gyfer gwahanol gylchgronau
- Ysgrifennwyd nifer o ddatganiadau i'r wasg
- Cynhyrchwyd nod tudalen (marciwr llyfr) i hyrwyddo'r ACA, y wefan newydd a hefyd i roi cyngor ar sut i ofalu am yr amgylchedd
- Roedd y 5^{ed} daflen newyddion yn barod i'w chylechredeg
- Dylai'r wefan newydd fod yn fyw erbyn canol mis Tachwedd, ac roedd y cynnwys wedi cael ei gwblhau. Y cyfeiriad ar y we oedd www.penllynarsarnau.co.uk
- Cynhyrchwyd logo ar gyfer yr ACA

4d) O Dan y Môr a'i Donnau – prosiect Interreg IIIA

Rhoddodd Alison y wybodaeth ddiweddaraf am y prosiect Interreg “O Dan y Môr a'i Donnau”.

Cafodd y prosiect hwn ei sefydlu i gynyddu ymwybyddiaeth o ACA Pen Llŷn a'r Sarnau. Roedd yn cael ei ariannu gan y rhaglen Interreg IIIA efo arian cyfatebol oddi wrth Gyngor Gwynedd. O dan ofynion y rhaglen Interreg IIIA, roeddent yn bartner arweiniol efo Cyngor Sir Fingal yn Iwerddon fel eu partner prosiect. Roedd deg is-broject yn ochr Gymreig y prosiect hen. Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf, a dangosir amlinelliad o hynny isod:

Arolwg cynulleidfa

Roedd y prosiect hwn wedi cael ei gwblhau.

Prosiect celf

- Cafodd hwn ei roi allan ar gontract i Creu-ad
- Rhannu'n dair elfen, sef
 - **Murlun**

Creu cyfres o furluniau bychain yn dangos byd tanddwr yr ACA yn ogystal â chysyniad yr ACA a'u gosod ar wal yng ngorsaf rheilffordd Tywyn. Roedd hwn yn lleoliad delfrydol gan y cai ei defnyddio'n aml. Byddai llawer o blant ysgol yn defnyddio'r trên i fynd i'r ysgol. Byddai Creu-ad yn gweithio efo Ysgol

Uwchradd Tywyn ac Age Concern i ddatblygu syniadau ar gyfer y murluniau. Roedd y gymuned leol, trwy gyfrwng y Cyngor Tref, wedi cydsynio i hyn, a bu datganiad i'r wasg. Dylai'r murluniau terfynol fod yn eu lle erbyn Mawrth 2008.

○ **Peiriant Ymdrochi**

Roedd cerflun i ddangos byd tanddwr yr ACA i gael ei adeiladu a'i osod yng ngerddi Plas Glyn y Weddw dros yr haf. Cymerwyd syniadau ar gyfer y cerflun oddi wrth nifer o weithdai a gynhaliwyd ym Mhlas Glyn y Weddw dros yr haf. Roedd y gweithdai'n llwyddiannus iawn. Dylai'r cerflun terfynol gael ei gwblhau a'i osod yn ei le erbyn Mawrth 2008.

○ **Prosiect ffotograffig** – wedi'i gwblhau

Dewiswyd Ysgol Friog ac Ysgol Nefyn i gymryd rhan yn y prosiect hwn. Aeth Jean Napier, ffotograffydd proffesiynol, a naill ai'r Swyddog ACA neu'r cyddrefnydd prosiect i'r ysgol am 2 – 2.5 diwrnod. Ar y diwrnod cyntaf, cai'r disgyblion ddysgu sut i dynnu lluniau efo'r camerâu “defnyddio unwaith”, cael ffeithiau o'r rhyngwrwyd am fywyd morol ac wedyn fynd i'r traeth i dynnu ffotograffau. Buont hefyd yn gwneud celf traeth ac yn cymryd ffotograffau o hynny. Yn ystod yr ychydig ddyddiau wedyn, bu'r disgyblion yn casglu gwybodaeth efo'i gilydd ac yn creu rywfaint o ddarluniau, barddoniaeth, straeon ac yn y blaen am y môr. Ar ail ddiwrnod ein hymweliad fe fuom yn torri a lamineiddio'r ffotograffau, straeon ac yn y blaen ac yn eu glynu ar lenni cawod. Roedd hyn yn effeithiol iawn, ac fe wnaeth llawer o bobl sylwadau arnynt ar ôl eu gweld yn y sioeau lle cawsant eu harddangos.

Prosiect theatr

- Cafodd y prosiect hwn ei orffen eleni
- Cafwyd contract efo Frân Wen i ymgymryd â'r prosiect hwn
- Ysgrifennwyd sgript gan Angharad Tomos – y crwban mwyaf yn y byd. Defnyddiwyd hanes y crwban môr cefn-lledr mwyaf a gofnodwyd yn y byd, a ddaeth i'r lan yn Harlech, i ddenu dychymyg y plant.
- Rhoddodd Frân Wen y ddrama at ei gilydd a mynd â'r sioe i 21 o ysgolion cynradd lleol. Roedd pob sesiwn yn cynnwys sgwrs ymlaen llaw efo swyddog addysg Frân Wen, wedyn y cynhyrchiad a gweithdy ar ôl hynny. Hefyd roedd pob plentyn yn cael bag nad oedd yn niweidiol i grwbanod môr, a nwyddau ACA.
- Cafodd pecyn addysg hefyd ei baratoi gan Frân Wen, a chopi ei roi i bob ysgol.
- Aeth y sioe i ddwy ysgol yn Fingal, Iwerddon
- Fe gynhaliodd Frân Wen ddiwrnod agored i hysbysebu'r prosiect, yn Sŵ Môr Môn.
- Roedd Frân Wen mor hoff o'r sgript nes roeddent wedi chwilio am fwy o arian i fynd â'r hanes i fwy o ysgolion. Y flwyddyn hon, roeddent wedi bod o gwmpas ysgolion yn Ynys Môn, Conwy a gweddill Gwynedd yn ogystal â 4 Ysgol Arbennig.

Fideo tanddwr

- Roedd y prosiect hwn yn waith ar gontract gan Atticus media and design
- Byddai'r fideo'n 30 eiliad o hyd, hynny ydi ar ffurf hysbyseb.
- Cai ei gynhyrchu mewn nifer o wahanol fformatau, i'w dangos mewn sinemâu, ar y teledu a'i lawr lwytho i ffonau symudol. Gallai pobl lawr lwytho'r fideo o'r wefan newydd.
- Dylai'r fideo fod yn barod erbyn mis Rhagfyr

Taflen

- Cai'r gwaith hwn ei wneud gan blah d blah ar gontract, er mwyn iddo fod yn cysylltu efo dyluniad yr arddangosfa symudol
- Byddai'r daflen yn daflen wybodaeth am yr ACA. Byddai'n gadael i bobl wybod beth oedd

- yr ACA, yn lle yr oedd, beth oedd yno ac yn y blaen
- Dylai'r daflen gael ei gorffen erbyn Mawrth 2008

Arddangosfa symudol

- Cai'r gwaith hwn ei wneud gan blah d blah, ar gontract
- Roedd y prosiect wedi cael ei orffen
- Yn yr arddangosfa symudol, roedd
 - Prif banel arddangos – sef 5 panel yn cysylltu efo'i gilydd
 - Panel dwy ochr – testun am yr ACA a map
 - Panel awyr agored – testun am yr ACA a map
 - Sgrin deledu sy'n ffitio efo'r prif banel arddangos - gellid arddangos y fideo ar hon ar ôl iddo gael ei gynhyrchu, ac unrhyw beth arall fel sioe sleidiau o ffotograffau
 - Stand i ddal poster sy'n siglo
 - Poster newydd wedi'i ddylunio ar gyfer y stand – er mwyn medru hysbysebu digwyddiadau ac yn y blaen
 - 4 bwrdd crwn
 - 2 stand i ddal llenyddiaeth
 - 4 gêm ryngweithiol / addysgol:
 - Awn i 'sgota
 - Pennau a chynffonnau
 - Gêm fawr i'w chwarae ar y llawr
 - Ffeindiwch y Trysor
- Roedd yr arddangosfa wedi bod i nifer o sioeau ar ôl ei chwblhau, ac wedi bod yn llwyddiant

Poster

- Roedd poster i gael ei gynhyrchu ar gyfer yr ACA, trwy gynnal cystadleuaeth
- Byddai'r gystadleuaeth yn rhedeg hyd 10 Tachwedd a gallai pobl gyflwyno ffotograffau, gwaith celf, barddoniaeth ac yn y blaen. Y beirniad fyddai Iolo Williams. Cai'r enillydd daith i ddau o gwmpas Pen Llŷn, a'u gwaith yn cael ei gynnwys yn y poster newydd.
- Dylai'r poster gael ei orffen erbyn yn gynnar yn 2008

Panelau dehongli

- Doedd y prosiect hwn ddim wedi cael ei roi allan ar gontract hyd hynny.
- Cai'r prosiect ei orffen erbyn Mehefin 2008

Gwerthuso

- Roedd y prosiect hwn i gael ei wneud dan gontract gan Beaufort
- Byddent yn gwerthuso'r arddangosfa symudol, y prosiect celf a'r prosiect theatr, wedyn yn darparu adroddiad.
- Cai'r prosiect ei orffen yn gynnar yn ystod 2008

Seminar

- Cai seminar ei redeg ar ddiwedd y prosiect, mewn partneriaeth efo Cyngor Sir Fingal yn Iwerddon, i hyrwyddo'r prosiect ac edrych dros y casgliadau

4e) Diweddaru'r cynllun rheoli

Eglurodd Alison fod y broses o ddiweddaru'r cynllun rheoli wedi dechrau tua blwyddyn ynghynt, ac y gobeithid cwblhau'r gwaith erbyn Mawrth 2009. Cynhyrchwyd y cynllun rheoli gwreiddiol ddim ond ar gyfer nodweddion rîff a moryd. Ers hynny, roedd angen ychwanegu deg nodwedd ychwanegol at y cynllun.

Ar yr adeg honno, roedd y Swyddog ACA a'r awdurdodau perthnasol wedi bod yn canolbwyntio ar y Cynlluniau Gweithredu Pwnc, hynny ydi y rhan o'r ddogfen oedd yn delio efo gweithgareddau oedd yn digwydd (neu y gallent ddigwydd) yn yr ACA, a'r effaith y gallent ei gael ar y nodweddion a'r ymateb rheoli i hynny. Ychwanegodd Alison y gallai rhai o'r penawdau Cynlluniau Gweithredu Pwnc fod wedi newid, a bod rhai penawdau newydd. Y rheswm am hyn oedd bod swyddogion ACA mewn gwahanol rannau o Gymru'n ceisio safoni cynlluniau rheoli ar draws Gymru er mwyn gwneud yn sicr y gallai pobl fynd o un i un yn rhwydd a bod y sefyllfa'n fwy eglur.

Roedd yr awdurdodau perthnasol wedi bod yn diweddarau rhannau o'r Cynlluniau Gweithredu Pwnc hyn. Y cam nesaf fyddai i CCGC ddiweddarau'r rhan ar ba nodweddion y gellid fod effaith arnynt. Y rhan olaf i gael ei diweddarau fyddai'r ymateb rheoli.

Eglurodd Alison fod y Grŵp Cyswllt wedi chwarae rhan hanfodol pan gafodd y cynllun rheoli ei baratoi i ddechrau, ac y byddai'n werthfawr cael eu cyfraniad y tro hwn hefyd. Fe wnaeth hi ddosbarthu rhestr o'r Cynlluniau Gweithredu Pwnc a gofyn i aelodau'r Grŵp Cyswllt nodi pa Gynlluniau Gweithredu Pwnc y byddent yn dymuno eu gweld neu wneud sylwadau arnynt. Ychwanegodd y gallai'r aelodau weld unrhyw un o'r Cynlluniau Gweithredu Pwnc pe dymunent. Byddai Alison yn gyrru'r rhestr allan i bob aelod o'r Grŵp Cyswllt efo cofnodion y cyfarfod, i wneud yn sicr y cai bawb gyfle i gyfrannu at y ddogfen.

***GWEITHREDU: Alison i yrru rhestr o'r Cynlluniau Gweithredu Pwnc allan i'r Grŵp Cyswllt efo cofnodion y cyfarfod.
Pob aelod o'r Grŵp Cyswllt oedd yn dymuno gwneud sylwadau ar rannau o'r cynllun rheoli i adael i Alison wybod erbyn canol Rhagfyr 2007***

4f) Cyfnod mamolaeth y Swyddog ACA

Eglurodd Alison y bydd hi ffwrdd ar gyfnod mamolaeth o gychwyn mis Ionawr am tua 9 mis. Mae Cyngor Gwynedd wedi rhoi bid i mewn i CCGC am arian ychwanegol er mwyn gael rhywun i weithio ar yr ACA yn rhan amser tra bydd Alison i ffwrdd.

Mae Alison wedi rhoi rhaglen waith manwl at ei gilydd sydd yn cynnwys y rhestr isod. Mi fydd rhaid i rain gael eu cyflawni tra bydd Alison i ffwrdd:

- Parhau i ddiweddarau'r Cynllun Rheolaeth
- Cynnal un cyfarfod yr Awdurdodau Perthnasol
- Cynnal un cyfarfod y Grŵp Cyswllt
- Diweddarau'r gwefan newydd
- Bod yn Pwynt cyswllt ar gyfer yr ACA

Targedau codi ymwybyddiaeth:

- Bydd llawer yn cael ei gyflawni trwy'r prosiect Interreg
- Bydd tîm bioamrywiaeth Cyngor Gwynedd yn cynnal nifer o ddigwyddiadau morol - bydd Alison wedi trefnu'r rhain cyn mynd
- Bydd llawer yn cael eu gorffen cyn iddi fynd e.e. gorffen y gwefan newydd, cylchlythyr ayb

5 Ailddatgan y prif bwyntiau am gynrychiolaeth gan y Grŵp Cyswllt

Eglurodd Alison ei bod yn dymuno gwneud yn sicr fod y rhestr grŵp diddordeb yn parhau i fod yn gywir ac yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf.

Gofynnodd Alison i aelodau'r Grŵp Cyswllt gael gair efo hi cyn diwedd y cyfarfod i wneud yn sicr eu bod yn parhau i gynrychioli'r grŵp diddordeb cywir. Felly gallai hi weld a oedd unrhyw fylchau.

GWEITHREDU: *Alison i holi efo gweddill aelodau'r Grŵp Cyswllt nad oeddent yn y cyfarfod, i weld a oeddent o dan y categori cywir.*

6 Cyflwyniad gan Ruth Sharratt – Y Prosiect Glas Gwyrdd

Rhoddodd Ruth Sharratt, y Swyddog Glas Gwyrdd o'r Gymdeithas Hwyllo Frenhinol, gyflwyniad ar y prosiect glas gwyrdd.

Roedd y prosiect Glas Gwyrdd yn gynllun ymwybyddiaeth amgylcheddol gan Ffederasiwn Morol Prydain a'r Gymdeithas Hwyllo Frenhinol, efo'r nod o annog pobl sy'n defnyddio cychod a chymryd rhan mewn chwaraeon dŵr i ddefnyddio dyfroedd arfordirol a mewndirol mewn ffordd gynaliadwy, a bod y diwydiant cychod hamdden yn gweithredu a datblygu mewn ffordd gynaliadwy.

Roedd Glas Gwyrdd Cymru'n cael ei ariannu gan CCGC ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ac yn cael ei gefnogi gan Gymdeithas Hwyllo Cymru a Ffederasiwn Morol Prydain yng Nghymru. Gellid cael mwy o wybodaeth ar y wefan www.thegreenblue.org.uk. Dywedodd bod ei chanolfan hi ym Mhlas Menai yng Ngogledd Cymru ond bod y swydd yn cynnwys Cymru gyfan.

Cwestiynau:

6.1 Gofynnodd Rowland Sharp a oeddent yn targedu defnyddwyr cychod sy'n pysgota genwair fel diddordeb hamdden

Dywedodd Ruth eu bod yn ceisio gymaint ag y bo modd, ond ddim yn targedu pysgotwyr genwair yn benodol. Dywedodd y byddent yn croesawu rywfaint o gyngor ar sut i wneud hynny, gan ychwanegu ei bod yn hawdd targedu pobl oedd yn gysylltiedig efo clybiau ond yn anodd efo rhai nad oeddent mewn clybiau.

Gwnaethpwyd yr awgrymiadau a ganlyn:

- Mynd i sioeau cychod i ddarparu gwybodaeth
- Gofyn i werthwyr cychod ddosbarthu gwybodaeth
- Darparu gwybodaeth mewn safleoedd lansio ffurfiol
- Mynd trwy gynllun cofrestru Cyngor Gwynedd – cysylltu efo Barry Davies, Swyddog Morol, Cyngor Gwynedd
- Mynd trwy'r cymdeithasau pysgota genwair
- Rhoi gwybodaeth ar wefannau perthnasol fel yr un gai ei redeg gan Mike Thrussell
- Cyhoeddi gwybodaeth mewn cylchgronau fel un y BSAC (British Sub Aqua Club). Ychwanegodd Bill Miller Jones nad oedd yr holl gychod deifio (plymwyr) yn rhai masnachol

6.2 Gofynnodd Rod Gritten pam nad oedd y cynllun yn cynnwys padlwyr

Atebodd Ruth nad oeddent yn aelodau o'r Gymdeithas Hwyllo Frenhinol ac mai ar y grŵp hwnnw roedd y cynllun yn canolbwyntio. Ychwanegodd fod ganddynt gôd ymddygiad a bod llawer o'r materion yn ymwneud efo cychod mwy o faint.

6.3 Gofynnodd Mike Bowyer beth oedd yn cael ei wneud am wastraff o gychod

Atebodd Gruff Jones fod gan lawer o lefydd gyfleusterau erbyn hynny. Roedd Cadw Cymru'n Daclus wedi bod yn gweithio ar hyn, ond daeth yr arian ar ei gyfer i ben.

6.4 Gofynnodd Alan Gaydon sut gallent dargedu pobl efo llithrfeydd preifat lle byddai jetsgis a chychod bychain yn cael eu lansio, er enghraifft o safleoedd gwersylla. Yn aml doedd y bobl hynny ddim yn aelodau o unrhyw glwb.

Awgrymodd y Grŵp Cyswllt y gallent fynd â thaflenni i'r safle gwersylla. Awgrymwyd hefyd eu bod yn cysylltu efo'r wefan fforwm jetsgi. Gallent gael cyswllt i'r wefan honno oddi wrth nifer o wefannau eraill.

7 Unrhyw fater o bryder neu ddiddordeb

7.1 Cododd Bill Bracewell fater am gyswllt.

Eglurodd fod Partneriaeth Aberdyfi wedi bod yn cymryd rhan mewn tri phrosiect yn ddiweddar, a bod pob un o'r tri wedi cael problemau o ran cyfathrebu efo Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC):

- Prosiect 1 – Cais am grant i greu gardd goed. Ond roeddent yn parhau i aros am adroddiad i egluro a oedd dyfrgwn yno ynte peidio. Ar ôl gofyn nifer o weithiau, doedd neb o'r CCGC wedi ymweld a doeddent wedi cael dim cyswllt er gyrru negeseuon e-bost a galwadau ffôn.
- Prosiect 2 – Cais i greu llwybr beic o Aberdyfi i Dywyn. Cafodd y prosiect hwn ei atal am fod 6 cornchwiglen mewn cae. Eto doedd dim cyfathrebu oddi wrth CCGC.
- Prosiect 3 – Cafodd dogfen ei chynhyrchu i weld beth oedd y posibilïadau ar gyfer datblygu harbwr yn Aberdyfi.

Ychwanegodd Bill fod angen mwy o gyswllt neu gallai olygu na fyddai mwy o brosiectau'n digwydd yn yr ACA. Ychwanegodd hefyd fod angen i bobl fedru ennill bywoliaeth a bod cadwraeth yn digwydd ar yr un adeg. Roeddent yn teimlo mai edrych i lawr arnynt oedd yn digwydd, a bod angen iddynt gael perthynas well efo CCGC. Dywedodd fod pobl oedd yn gweithio ar brosiectau'n cael eu gadael mewn sefyllfa anodd iawn.

Gofynnodd Lucy Kay a oedd unrhyw beth allai'r Grŵp Cyswllt ei wneud. Eglurodd Lucy hefyd fod CCGC dan bwysau ar yr adeg honno ac felly ei bod yn anodd ymateb gan nad oedd ganddynt yr adnoddau. Dywedodd y gallai fynd â'r mater yn ôl i'r rheolwr rhanbarth.

Nododd Bill eu bod wedi ffonio a gyrru negeseuon e-bost, ond heb gael ateb.

Gwnaeth Mike Parry sylw cyffredinol y dywedwyd wrth bobl ar ddechrau'r broses o ddynodi SAC na fyddai'r SAC yn atal gweithgareddau nac yn amharu ar fywydau pobl. Ychwanegodd ei fod yn gweld sefyllfa wahanol erbyn hynny, ac roedd yn bryderus.

Cyfeiriodd Rod Gritten yn ôl at gwestiwn Bill, gan ddweud bod Parc Cenedlaethol Eryri hefyd yn awdurdod cynllunio a'u bod hwy'n brysur iawn yn ogystal, a bod pethau'n cymryd amser. Cytunodd fod diffyg ymateb, a byddai'n mynd â'r neges yn ôl i'r awdurdod. Soniodd mai'r peth gorau i'w wneud fyddai ymateb nid yn unig i'r ymgynghorwyr ond hefyd i'r bartneriaeth.

Dywedodd Bill ei fod ofn na fyddai'r ACA yn caniatáu unrhyw ddatblygiad. Roedd llawer o bethau wedi cael eu gwneud heb feddwl am bobl a'r economi, rhaid i CCGC a'r awdurdodau cynllunio weithio efo pobl.

Soniodd Mike Bowyer fod CADW yn llawer gwaeth na CCGC, a'i fod ef yn cael negeseuon e-bost yn dod yn ôl heb gael eu darllen.

Eglurodd Lucy fod gostyngiad mewn ariannu'n golygu gostyngiad mewn gwasanaethau ac adnoddau, a bod angen edrych ar hyn.

Ychwanegodd Bill fod hefyd angen newid agweddau.

7.2 Cododd Bill Miller – Jones bwynt o ddiddordeb am British Divers Marine Life Rescue

Soniodd fod digwyddiadau o greaduriaid môr yn dod i'r lan yn y Deyrnas Unedig yn cael eu cyd-drefnu gan British Divers Marine Life Rescue. Dywedodd eu bod wedi gwneud llawer o waith ac wedi rhoi llawer o ymdrech i achub mamaliaid môr oedd wedi dod i'r lan. Fe soniodd y gallai fod yn werth cael siaradwr i ddod i sôn am beth fyddent yn ei wneud.

GWEITHREDU: Alison i holi am gael siaradwr i ddod i sôn am y pwnc hwn.

8 Amser a dyddiad y cyfarfod nesaf

Tynnodd Rod Gritten y cyfarfod i ben trwy ddiolch i bawb am ddod yno.

Cai'r cyfarfod nesaf ei gynnal ar 5 Mehefin 2008, 7 – 9 pm ym Mhlas Tan y Bwlch